| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithiwr Cefnogi Gofal Ychwanegol |
| **Portffolio** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Yn atebol i'r** | Rheolwr Gofal Ychwanegol |
| **Lleoliad** | Cynllun Gofal Ychwanegol |

**Pwrpas y Swydd**

1.1 Fel rhan o dîm, darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol penodol i bobl hŷn fel y nodir yn eu cynllun gofal gyda'r nod o hyrwyddo annibyniaeth a lles yr unigolyn yn ei gartref ei hun mewn lleoliad Gofal Ychwanegol a'r ardal gyfagos.
1.2 Mae'r swydd hon gyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â rôl gweithiwr allweddol a gweithio fel rhan o dîm aml-asiantaeth mewn lleoliad Gofal Ychwanegol i hyrwyddo annibyniaeth drwy alluogi tenantiaid i wneud y gorau o'u gallu corfforol, seicolegol, cymdeithasol, emosiynol, diwylliannol ac ysbrydol.
1.3 Mae'r swydd hon hefyd yn cynnwys darparu gofal dementia o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y rhyngweithio a'r profiadau cadarnhaol a geir wrth fyw yn y gymuned mewn amgylchedd gofal ychwanegol.
3.1 Mae'r swydd hon yn un allweddol o ran darparu cymorth i bobl sy'n byw mewn Cyfleuster Gofal Ychwanegol ac yn y gymuned ehangach. Y nod yw hyrwyddo iechyd, annibyniaeth a lles yn ogystal â heneiddio cadarnhaol ac 'ychwanegu blynyddoedd at fywyd' pobl hŷn drwy gynnig cyfleoedd ehangach mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu gan weithio o fewn rheoliadau gofal cartref AGC.
3.2 Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o fewn patrwm sifft a fydd yn cynnwys gyda'r nosau a phenwythnosau, a chefnogi'r rheolwr wrth sicrhau bod digon o weithwyr yn rhan o'r rota.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Cefnogi pobl i fyw'n dda gartref.

2. Sicrhau bod cymorth â phob agwedd o ofal personol a ddarperir (e.e. cymorth i ymolchi, cael bath, a chynorthwyo unigolion â rheoli ymataliaeth) yn cael ei gynnig mewn dull sensitif ac urddasol ac amlygu meysydd i'w gwella a'u datblygu.

3. Cefnogi unigolion â dull ail-alluogi i gynnal a gwella eu sgiliau i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth.

4. Datblygu perthnasau da gyda'r unigolion yr ydym yn eu cefnogi, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Bydd hyn yn gwella a datblygu nodau personol ar gyfer yr unigolyn i wneud y mwyaf o'i annibyniaeth a byw bywyd llawn.

5. Cynorthwyo unigolion â chynnal a chadw a datblygu eu sgiliau byw pob dydd, gan gynnwys tasgau beunyddiol yn y cartref fel glanhau, cyllidebu, siopa a choginio, gan sicrhau bod gofynion dietegol, maeth ac iechyd yn cael eu bodloni.

6. Bod yn hyblyg a defnyddio eich menter eich hun i gefnogi pobl i safon uchel ar bob adeg a chymryd cyfrifoldeb i gynnal y safonau hyn. Oherwydd natur y gwaith bydd angen lefel uchel o onestrwydd ac ymwybyddiaeth o'r angen am gyfrinachedd.

7. Cynorthwyo'r Cydlynydd Gweithgareddau i ddiwallu anghenion adloniant a hamdden y tenantiaid o fewn y cyfleuster gofal ychwanegol a'r gymuned ehangach.

8. Cadw cofnodion da

9. Byddwch yn gallu cefnogi unigolion â'u hiechyd a'u lles, yn cynnwys trefnu apwyntiadau â'r Meddyg Teulu, archebu meddyginiaeth yn ôl y galw.

10. Sicrhau bod anghenion iechyd, diogelwch a lles yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi yn cael eu diwallu tra maent yn eu cartrefi eu hunain a sicrhau bod asesiadau risg priodol ar waith wrth ymgymryd â gweithgareddau allanol, gan gynnwys teithio i ac o amrywiaeth o leoliadau yn y gymuned.

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
|---|
| Dim |
| **Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol, h.y. GDG** |
| GDG manylach<br>Cofrestru Gweithwyr Cefnogi â Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **Amodau Gwaith Arbennig** |
| Dim |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| ***Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol.*** | | |
| **Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut bydd yn cael ei asesu?** |
| | | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Lefel gyffredinol dda o addysg. | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Ymrwymiad i weithio tuag at NVQ/QCF Lefel 2 mewn gofal. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu cadw cofnodion/dogfennau cywir. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Meddu ar ddealltwriaeth o anghenion pobl hŷn, gan gynnwys pobl â dementia. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithio gyda phobl hŷn a/neu bobl ddiamddiffyn eraill fel rhan o dîm. | Dymunol | |
| **Sgiliau** | | |
| Agwedd anfeirniadol a'r gallu i drin pobl hŷn gydag urddas a pharch. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu hyrwyddo annibyniaeth drwy weithio ochr yn ochr â phobl hŷn a chyrraedd canlyniadau a nodau penodol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda phobl hŷn, teuluoedd, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill o fewn y cyd-destun eich gwaith. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o'r angen a'r gallu i gadw cyfrinachedd. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut bydd yn cael ei asesu?** |
| **Rhoi'r Cwsmer yn Gyntaf:** Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni a rhagori ar eu disgwyliadau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:** Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i ni ei gyflawni yn ein gwaith a meddu ar y sgiliau, cymhelliant, brwdfrydedd ac ymrwymiad i weithio'n effeithiol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cydweithio / Gweithio mewn Partneriaeth:** Meithrin a chynnal perthnasau cadarnhaol er mwyn darparu gwasanaethau gwell ar gyfer ein cwsmeriaid a'n gweithwyr | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:** Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, parchu ein gilydd, mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Newid:** Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau trwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:** Arwain a chymell eich hun ac eraill i wella perfformiad yn barhaus | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |